Adran 1. Pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

Mae'r asesiad effaith hwn yn ymwneud â'r cynnig i gyflwyno cod ymarfer a fydd yn nodi gofynion ar awdurdodau lleol wrth iddynt arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014"). Mae'r Cod Ymarfer hefyd yn cynnwys canllawiau ac arweiniad i awdurdodau lleol wrth iddynt arfer y swyddogaethau hyn. Caiff y Cod Ymarfer ei ategu gan Gyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ("Deddf 2006").

Bydd y Cod Ymarfer ar Sicrhau Ansawdd a Rheoli Perfformiad, Uwchgyfeirio Pryderon a Chau Gwasanaethau, mewn perthynas â Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig ("y Cod Ymarfer") yn disodli'r canllawiau statudol ar Uwchgyfeirio Pryderon a Chau Cartrefi Gofal sy'n Darparu Gwasanaethau i Oedolion 2009 ("canllawiau 2009"). Mae canllawiau 2009 yn ymdrin â rheoli gweithdrefnau uwchgyfeirio pryderon a chau cartrefi gofal i oedolion sydd wedi'u cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae canllawiau 2009 yn nodi rolau a chyfrifoldebau awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru pan fo materion gweithredol wedi cronni neu pan fo'r cartref gofal mewn perygl o gau. Ers 2009, mae newidiadau deddfwriaethol wedi'u cyflawni yn y maes hwn, yn fwyaf nodedig Deddf 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016").

Yn 2020 ac ar gais Llywodraeth Cymru, cynhaliodd y Ganolfan Heneiddio Arloesol ym Mhrifysgol Abertawe adolygiad o ganllawiau 2009, yn dilyn cydnabod bod y ddeddfwriaeth a'r arferion presennol wedi newid.

Mae'r Cod Ymarfer wedi'i lunio ar y cyd â Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol Cymru, sydd bellach yn rhan o'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth. Sefydlwyd grŵp rhanddeiliaid ym mis Hydref 2023 a chynhaliwyd pum cyfarfod o'r grŵp i ystyried argymhellion yr adolygiad, y dull gweithredu a'r fersiynau drafft o'r Cod Ymarfer. Mae pecyn cymorth wedi'i ddatblygu i ategu'r Cod Ymarfer er mwyn darparu templedi o enghreifftiau o arferion da. Bydd y pecyn cymorth yn cael ei gyhoeddi ar dudalen gwe Pecyn Cymorth y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth yng Nghymru (Safon 5 - Mesur Gwerth). Mae'n rhan o hyb Gofal Cymdeithasol Cymru a bydd yn galluogi'r gwaith o ddatblygu'r pecyn cymorth ymhellach a'i ddiweddaru'n hwylus. Rhannodd y rhanddeiliaid syniadau gwerthfawr o ran arferion presennol sydd wedi llywio datblygiad y Cod Ymarfer a'r pecyn cymorth.

Bydd y Cod Ymarfer yn adlewyrchu'r newidiadau deddfwriaethol a gyflwynwyd drwy Ddeddf 2014 a Deddf 2016 ar gyfer gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, llais a rheolaeth unigol, a gwelliant parhaus. Bydd y Cod Ymarfer yn gymwys i'r holl wasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig a gomisiynir sydd wedi'u cofrestru ag AGC o dan Ddeddf 2016. Mae'r Cod Ymarfer yn nodi gofynion i sicrhau cysondeb ar lefel genedlaethol gan hefyd hyrwyddo hyblygrwydd ar gyfer prosesau lleol a rhanbarthol.

Mae’r Cod Ymarfer yn darparu canllawiau ac arweiniad ar sicrhau ansawdd a rheoli perfformiad yn achos gwasanaethau rheoleiddiedig a gomisiynir, gan hyrwyddo pwysigrwydd ymwreiddio diwylliant o ddysgu a gwella parhaus. Mae’r Cod Ymarfer yn cynnwys canllawiau ac arweiniad ar ddatgomisiynu gwasanaethau ac mae’n pwysleisio pwysigrwydd sicrhau parhad gwasanaethau er mwyn diwallu anghenion gofal a chymorth pobl a chynnal eu llesiant. Mae’r Cod Ymarfer yn rhoi eglurder ynghylch rôl a chyfrifoldebau yr awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau’r GIG yng Nghymru.

Rhwng 7 Ebrill 2025 a 30 Mehefin 2025, cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos o hyd ynghylch y Cod Ymarfer drafft. Tynnwyd sylw rhanddeiliad allweddol at yr ymgynghoriad, gan gynnwys awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau’r GIG yng Nghymru, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, cyrff cynrychioliadol y sector, y Comisiynydd Pobl Hŷn, y Comisiynydd Plant, Arolygiaeth Gofal Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru. Rhoddwyd sylw i’r ymgynghoriad ar y cyfryngau cymdeithasol ac yng nghylchlythyr Arolygiaeth Gofal Cymru.

***Effaith***

Bydd y Cod Ymarfer yn adlewyrchu’r newidiadau deddfwriaethol a gyflwynwyd drwy Ddeddf 2014 a Deddf 2016 ar gyfer gofal a chymorth sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn, llais a rheolaeth unigol, a gwelliant parhaus. Bwriedir i’r Cod Ymarfer gael ei ystyried ochr yn ochr â’r *Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth yng Nghymru: Cod Ymarfer* sy’n nodi egwyddorion a safonau arferion comisiynu.

Mae gan y Cod Ymarfer fwy o gyrhaeddiad gan ei fod yn gymwys i Fyrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau’r GIG yng Nghymru yn ogystal ag awdurdodau lleol. Bydd Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau’r GIG yng Nghymru i arfer eu swyddogaethau yn unol â darpariaethau perthnasol y Cod Ymarfer, gan felly ddarparu grym cyfreithiol tebyg ag awdurdodau lleol. Bydd y Cod Ymarfer yn gymwys i’r holl wasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig sydd wedi’u cofrestru ag AGC o dan Ddeddf 2016.

Bydd y Cod Ymarfer yn darparu canllawiau ac arweiniad i hyrwyddo dull gweithredu cyson ledled Cymru gan hefyd alluogi hyblygrwydd ar gyfer prosesau lleol a rhanbarthol. Bydd yn ofynnol i’r awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau’r GIG yng Nghymru gydymffurfio ag un Cod Ymarfer yn hytrach na sawl dehongliad gwahanol gan yr awdurdodau lleol o’r canllawiau statudol presennol. Yn yr un modd, bydd un Cod Ymarfer yn sicrhau eglurder a sicrwydd i ddarparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig, gan gynnwys y rhai sy’n gweithredu ar draws gwahanol ardaloedd awdurdodau lleol neu Fyrddau Iechyd Lleol, a’r rhai sy’n darparu gwasanaethau rheoleiddiedig eraill.

Mae’r Cod Ymarfer yn cynnwys gofynion, arweiniad a chanllawiau ar sicrhau ansawdd a rheoli perfformiad gwasanaethau rheoleiddiedig a gomisiynir, gan hyrwyddo pwysigrwydd ymwreiddio diwylliant o ddysgu a gwella parhaus. Mae’r Cod Ymarfer yn nodi’r gofynion a’r arferion da i liniaru materion o fewn gwasanaeth yn hwylus ac yn effeithlon cyn cyrraedd y cam uwchgyfeirio pryderon.

Mae'r Cod Ymarfer yn cynnwys gofynion, canllawiau ac arweiniad ar ddatgomisiynu gwasanaethau ac mae'n pwysleisio pwysigrwydd sicrhau parhad gwasanaethau i ddiwallu anghenion gofal a chymorth pobl a chynnal eu llesiant. Mae'r Cod Ymarfer yn cydnabod pwysigrwydd cynnal sgiliau, gwybodaeth a phrofiad staff. Mae'r Cod Ymarfer yn cydnabod y gall fod mwy nag un comisiynydd gwasanaeth ac yn hyrwyddo rheolaeth effeithiol ac effeithlon o brosesau datgomisiynu.

Mae'r Cod Ymarfer yn sicrhau eglurder o ran rolau a chyfrifoldebau comisiynwyr gwasanaethau, y darparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig, Arolygiaeth Gofal Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru. Bydd hyn yn cyfrannu at arferion gwaith mwy effeithlon ac yn lleihau achosion o ddyblygu.

***Costau ac arbedion***

Bydd angen amser ar yr awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru a darparwyr gwasanaethau i ymgyfarwyddo â chynnwys y Cod Ymarfer ac adolygu eu polisïau a'u gweithdrefnau. Rydym yn rhag-weld y bydd y gwaith hwn yn cynnwys Penaethiaid Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion a Phlant, uwch reolwyr comisiynu, rheolwyr contractau, swyddogion monitro contractau, arweinwyr sicrhau ansawdd a swyddogion cyfreithiol a chaffael. Ar lefel sefydliadol, bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru adolygu eu polisïau a'u gweithdrefnau er mwyn cydymffurfio â gofynion y Cod Ymarfer.

Amcangyfrifir y bydd yn golygu 396 awr o waith fesul sefydliad statudol, gyda chost amser staff o £7,260. Ceir 22 o awdurdodau lleol, saith Bwrdd Iechyd Lleol, y Cyd-bwyllgor Comisiynu (sy'n ymgorffori unrhyw weithgarwch comisiynu a gyflawnir gan ymddiriedolaethau'r GIG) a Chonsortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant. Mae hyn yn cyfateb i amcan gost cyffredinol o £236,260 i weithredu'r Cod Ymarfer.

Bydd cost hefyd o ran rheolwyr darparwyr gwasanaethau cofrestredig ac Unigolion Cyfrifol o ran eu hamser i ymgyfarwyddo â'r Cod Ymarfer. Amcangyfrifir y bydd y gost yn £550 fesul sefydliad, gweler y tabl isod:

| Galwedigaeth | Cyflog gros yr awr (Cymru, canolrif, 2024) | Cyflog gros yr awr gan gynnwys argostau (30%) | Cost i Unigolion Cyfrifol a rheolwyr ymgyfarwyddo â graddau (gan ragdybio y bydd yn cymryd 10 awr) |
|---|---:|---:|---:|
| Rheolwyr a Chyfarwyddwyr ym maes Iechyd | £20.87 | £27.13 | £271.30 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| a Gwasanaethau Cymdeithasol | | | |
| Rheolwyr a Pherchnogion ym maes Iechyd a Gwasanaethau Gofal | £21.45 | £27.89 | £278.90 |

Enillion ac oriau a weithiwyd, rhanbarth yn ôl galwedigaeth a SOC pedwar digid: ASHE Tabl 15 - y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

Mae'r tabl isod yn nodi nifer y gwasanaethau, ar 23 Hydref 2025, a oedd wedi'u cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru o dan Ddeddf 2016.

| Math o wasanaeth | Nifer y gwasanaethau |
|---|---|
| Gwasanaeth Mabwysiadu | 6 |
| Gwasanaeth Lleoli Oedolion | 8 |
| Gwasanaeth Eirioli | 2 |
| Ysgol breswyl | 12 |
| Gwasanaeth Cartref Gofal | 1424 |
| Oedolion a Phlant heb ofal nyrsio | 19 |
| Oedolion â gofal nyrsio | 248 |
| Oedolion heb ofal nyrsio | 780 |
| Cartref Plant | 377 |
| Gwasanaeth Cymorth Cartref | 769 |
| Gwasanaeth Maethu | 22 |
| Coleg Addysg Bellach | 3 |
| Asiantaeth Fabwysiadu ALI | 20 |
| Gwasanaeth Maethu ALI | 22 |
| Canolfan Breswyl i Deuluoedd | 5 |
| Ysgol Arbennig Breswyl | 3 |
| Gwasanaeth Llety Diogel | 1 |
| Gwasanaeth Preswyl Ysgol Arbennig | 4 |
| Cyfanswm | 2301 |

Rydym yn rhag-weld y bydd y mwyafrif o'r costau hyn yn cael eu gwrthbwyso yn y dyfodol drwy eglurder rolau a chyfrifoldebau, arferion gwaith mwy effeithlon a lleihau achosion o ddyblygu. Ni ddisgwylir i'r Cod Ymarfer arwain at unrhyw newidiadau sylweddol mewn arferion gwaith ac felly, nid oes unrhyw gostau parhaus ychwanegol i awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru.

Mae'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer datblygu'r Cod Ymarfer eisoes wedi'u bodloni drwy adnoddau presennol ac fe'u hystyrir yn gostau suddo a gellir eu hanwybyddu.

Caiff y Cod Ymarfer ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru heb unrhyw gost ychwanegol. Caiff y Cyfarwyddydau eu cyhoeddi ar adran rheoli'r GIG ar wefan Llywodraeth Cymru heb unrhyw gost ychwanegol.

***Cydweithio a chymryd rhan***

Mae Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â Comisiynu Gofal Cymru (sydd bellach yn rhan o'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth), wedi ymgysylltu â chomisiynwyr, darparwyr gwasanaethau, Arolygiaeth Gofal Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru a chyrff cynrychioliadol y sector ar y Cod Ymarfer arfaethedig. Rhwng 7 Ebrill 2025 a 30 Mehefin 2025, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch y Cod Ymarfer drafft. Tynnwyd sylw rhanddeiliad allweddol at yr ymgynghoriad, gan gynnwys awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, cyrff cynrychioliadol y sector, y Comisiynydd Pobl Hŷn, y Comisiynydd Plant, Arolygiaeth Gofal Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru. Rhoddwyd sylw i'r ymgynghoriad ar y cyfryngau cymdeithasol ac yng nghylchlythyr Arolygiaeth Gofal Cymru.

Daeth cyfanswm o 41 o ymatebion i'r ymgynghoriad i law Llywodraeth Cymru, tri ohonynt gan unigolion, 34 ohonynt ar ran sefydliadau, ac ni wnaeth y gweddill nodi.

Adran 8. Casgliad

### 8.1 Sut y mae pobl y mae'r cynnig fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cod Ymarfer drafft. Cafodd y dogfennau ymgynghori eu cyhoeddi'n ddwyieithog ac ar ffurf hawdd eu deall ar wefan Llywodraeth Cymru. Roeddent yn cynnwys ffurflen ymateb y gellid ei chyflwyno drwy e-bost neu ar ffurf copi caled.

Mae rhestr isod o randdeiliaid a wahoddwyd i ymateb i'r ymgynghoriad:

- Aelodau Arweiniol yr Awdurdodau Lleol dros Ofal Cymdeithasol
- Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol
- Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol
- Penaethiaid Gwasanaethau Plant
- Penaethiaid Gwasanaethau Oedolion
- Cadeiryddion y GIG
- Prif Weithredwyr y GIG
- Ysgrifenyddion Byrddau'r GIG
- Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru
- Gweithrediaeth y GIG
- Cydffederasiwn GIG Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

- Cadeiryddion a Dirprwy Gadeiryddion Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol
- Arweinwyr y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol
- Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
- Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC)
- Comisiynydd Plant Cymru
- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Archwilio Cymru
- Fforwm Gofal Cymru
- Y Fforwm Darparwyr Cenedlaethol
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC)
- Plant yng Nghymru
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Anabledd Cymru
- Llais (Corff Llais y Dinesydd)
- Fforwm Cynghori'r Gweinidog ar Heneiddio
- Cadeiryddion Byrddau Diogelu Rhanbarthol
- Cydgysylltwyr Busnes Byrddau Diogelu Rhanbarthol
- Rheolwyr Busnes Byrddau Diogelu Rhanbarthol
- Cymdeithas Cartrefi Plant
- Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant
- Cymdeithas Gofal Cartref
- Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru
- Maethu Cymru
- Cysylltu Bywydau
- Grŵp Rhanddeiliaid y Cod Ymarfer

**8.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?**

Bydd yr effeithiau mwyaf arwyddocaol yn cael eu profi gan awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru fel comisiynwyr gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig sydd wedi'u cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru.

Bydd y Cod Ymarfer yn adlewyrchu'r newidiadau deddfwriaethol a gyflwynwyd drwy Ddeddf 2014 a Deddf 2016 ar gyfer gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, llais a rheolaeth unigol, a gwelliant parhaus. Bwriedir i'r Cod Ymarfer gael ei ystyried ochr yn ochr â'r *Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth yng Nghymru: Cod Ymarfer* sy'n nodi'r egwyddorion a'r safonau ar gyfer arferion comisiynu.

Mae gan y Cod Ymarfer fwy o gyrhaeddiad gan y bydd yn gymwys i Fyrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru yn ogystal ag awdurdodau lleol. Bydd Gweinidogion Cymru yn cyfeirio Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r

GIG yng Nghymru at y Cod Ymarfer gan felly ddarparu grym cyfreithiol tebyg ag awdurdodau lleol. Bydd y Cod Ymarfer yn gymwys i'r holl wasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig sydd wedi'u cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru o dan Ddeddf 2016.

Mae'r Cod Ymarfer yn gymwys i'r holl wasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig a gomisiynir ar gyfer oedolion a phlant sydd wedi'u cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru. Roedd y canllawiau statudol blaenorol yn ymwneud â chartrefi gofal oedolion yn unig.

Bydd y Cod Ymarfer yn darparu canllawiau i hyrwyddo dull gweithredu cyson ledled Cymru gan hefyd alluogi hyblygrwydd ar gyfer prosesau lleol a rhanbarthol. Bydd yn ofynnol i'r awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru gydymffurfio ag un Cod Ymarfer yn hytrach na sawl dehongliad gwahanol gan yr awdurdodau lleol o'r canllawiau statudol presennol. Yn yr un modd, bydd un Cod Ymarfer yn sicrhau eglurder a sicrwydd i ddarparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig, gan gynnwys y rhai sy'n gweithredu ar draws gwahanol ardaloedd awdurdodau lleol neu Fyrddau Iechyd Lleol a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau rheoleiddiedig eraill.

Mae'r Cod Ymarfer yn cynnwys gofynion, arweiniad a chanllawiau ar sicrhau ansawdd a rheoli perfformiad gwasanaethau rheoleiddiedig a gomisiynir, gan hyrwyddo pwysigrwydd ymwreiddio diwylliant o ddysgu a gwella parhaus. Mae'r Cod Ymarfer yn nodi'r gofynion a'r arferion da i liniaru materion o fewn gwasanaeth yn hwylus ac yn effeithlon cyn cyrraedd y cam uwchgyfeirio pryderon.

Mae'r Cod Ymarfer yn cynnwys gofynion, canllawiau ac arweiniad ar ddatgomisiynu gwasanaethau ac mae'n pwysleisio pwysigrwydd sicrhau parhad gwasanaethau er mwyn diwallu anghenion gofal a chymorth pobl a chynnal eu llesiant. Mae'r Cod Ymarfer yn cydnabod pwysigrwydd cynnal sgiliau, gwybodaeth a phrofiad staff. Mae'r Cod Ymarfer yn cydnabod y gall fod mwy nag un comisiynydd gwasanaeth ac yn hyrwyddo rheolaeth effeithiol ac effeithlon o brosesau datgomisiynu.

Mae'r Cod Ymarfer yn sicrhau eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau comisiynwyr gwasanaethau, y darparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig, Arolygiaeth Gofal Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru. Bydd hyn yn cyfrannu at arferion gwaith mwy effeithlon ac yn lleihau achosion o ddyblygu.

Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol arwyddocaol.

**8.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:**

- **yn cyfrannu cymaint â phosibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,**

- **yn osgoi, yn lleihau, neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae'r Cod Ymarfer yn cefnogi'r gwaith o gyflawni nodau llesiant Iachach a Mwy Cyfartal y Rhaglen Lywodraethu. Gwneir hyn drwy sicrhau bod y fframwaith

rheoleiddio yn cyd-fynd â’r dyheadau sydd wedi’u cynnwys yn Neddf 2014 a Deddf 2016.

Nid oes angen camau gweithredu i osgoi, gwella neu liniaru effaith negyddol gan nad oes unrhyw effeithiau negyddol wedi’u nodi.

**8.4 Sut y bydd effaith y cynnig yn cael ei monitro a’i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gyflawni?**

Bydd effaith y Cod Ymarfer yn cael ei monitro gan y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth.